# Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru):

## Tystiolaeth a gyflwynir i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Hydref 2014**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## Cyflwyniad

1. Mae ColegauCymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru). Rydym yn hapus i'r ymateb hwn fod yn wybodaeth gyhoeddus.
2. Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 15[1] coleg addysg bellach (AB) a sefydliad AB yng Nghymru, gyda deg ohonynt yn gorfforaethau AB. Caiff corfforaethau AB eu nodi yn Adran 13 y Bil.

## Crynodeb Gweithredol

3. Mae corfforaethau AB yn cefnogi'r awydd i wella gallu ariannol eu dysgwyr. Maent yn darparu gwasanaethau lles i'w dysgwyr. Hefyd, maent wedi dangos eu hymrwymiad i allu ariannol drwy'r ffaith iddynt gymryd rhan yn wirfoddol mewn prosiectau sy'n cael eu harwain gan y sector preifat. Mae nifer o gorfforaethau AB hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol.
4. Nid yw addysg a hyfforddiant yn orfodol y tu hwnt i 16 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu addysg ôl-16 mewn corfforaethau AB ac yn cymeradwyo'r cymwysterau sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus. Mae'r cwricwlwm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
5. Er y darpariaethau sydd yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, sy'n ceisio rhoi'n ôl i gorfforaethau AB statws Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o gyllid i gorfforaethau AB ac mae'r corfforaethau AB yn dymuno cynnal perthynas adeiladol gyda'r Llywodraeth.
6. Mae corfforaethau AB yn annibynnol ar awdurdodau lleol. Maent yn ceisio meithrin partneriaethau a gallant gydweithio ar nifer o brosiectau ac eistedd ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, ond nid oes gan awdurdodau lleol awdurdodaeth gyfreithiol dros raglenni dysgu corfforaethau AB.
7. Mae nodau'r Bil i'w canmol, ond nid yw'r darpariaethau yn y Bil yn briodol mewn perthynas â chorfforaethau AB.

[1] Mae'r 15 yn cynnwys 10 corfforaeth AB (Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Gwent, Coleg Penybont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Grŵp NPTC, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Sir Benfro, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria); y ddau sefydliad AB - WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion sy'n rhan o grwpiau prifysgol.

## Egwyddorion Cyffredinol y Bil

8. Mae'r colegau AB yn brif ddarparwyr addysg gyffredinol yng Nghymru, ac yn helpu i sicrhau rhai o'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. Y colegau yw prif ddarparwyr addysg alwedigaethol a thechnegol a gyllidir yng Nghymru, gan ddarparu tua 85% o'r holl ddarpariaeth.
9. Mae'r colegau yn ceisio sicrhau lles eu myfyrwyr ac yn darparu gwasanaethau annibynnol i fyfyrwyr sy'n darparu gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys grantiau myfyrwyr, diogelu, cymorth cyfrinachol i ddysgwyr sydd ag anawsterau personol, ac atgyfeirio at asiantaethau arbenigol lle y bo'n briodol.
10. Ceir llawer o dystiolaeth sy'n dangos y byddai nifer sylweddol o bobl yng Nghymru – gan gynnwys myfyrwyr colegau AB – yn elwa o feddu ar well sgiliau rheoli ariannol.
11. Mae ColegauCymru felly yn cefnogi dyhead allweddol y Bil, sef “hybu addysg a chynhwysiant ariannol pobl yng Nghymru”, ond yn yr ymateb hwn, cynigwn nifer o bwyntiau o eglurhad ar gorfforaethau AB a allai helpu'r Pwyllgor i benderfynu p'un a fyddai Adran 13 y Bil yn benodol yn helpu i sicrhau'r canlyniadau disgwyliedig.

## A oes angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion polisi penodedig y Bil?

12. O ran plant o dan 16 oed, gobeithir y bydd y newidiadau sydd ar y gweill i'r cymwysterau cyffredinol cyn-16 yng Nghymru (e.e. cyflwyniad arfaethedig y cymhwyster TGAU rhifedd newydd a ddylai gynnwys rhai safbwyntiau ariannol) yn helpu i wella llythrennedd ariannol pobl ifanc ac y byddant yn defnyddio eu gwybodaeth am reoli ariannol wrth iddynt dderbyn y cyfrifoldebau o fod yn oedolion.
13. Wrth gychwyn mewn colegau AB, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bron i bob dysgwr 16-19 oed gael eu sgrinio ar eu hanghenion llythrennedd a rhifedd. Darperir cymorth priodol gan y colegau yn ôl yr angen i helpu'r myfyrwyr hynny y nodwyd bod ganddynt anghenion llythrennedd/rhifedd. Ni chaiff anghenion llythrennedd ariannol eu nodi ar wahân. Mae cymwysterau sgiliau hanfodol a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru ôl-16 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Deallwn y bydd lle yn y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru newydd i gynnwys heriau sy'n ymwneud â llythrennedd ariannol.

14. Er mwyn gwella lles ariannol pobl yn fwy cyffredinol, sefydlwyd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol drwy Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 gydag amcanion statudol.

## A yw'r darpariaethau allweddol sydd wedi eu gosod allan yn y Bil yn briodol i gyflawni ei ddibenion penodedig?

### Y Bil mewn perthynas â chorfforaethau AB

15. Adran 13 y Bil:

    Cyngor i fyfyrwyr
    "Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn ei ardal yn darparu cyngor ynglŷn â rheolaeth ariannol i fyfyrwyr."

16. Mae tair agwedd ar Adran 13 sydd angen eu hystyried:
    a) Y berthynas rhwng awdurdod lleol a chorfforaeth addysg bellach
    b) Swyddogaeth corfforaethau AB o ran darparu cyngor ar reolaeth ariannol
    c) Y gwahanol gategorïau o fyfyrwyr ar gofrestr colegau AB.

### (a) Y berthynas rhwng awdurdod lleol a chorfforaeth addysg bellach

17. Mae corfforaethau AB yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yn eu hardaloedd. Yn wir, mae gan y rhan fwyaf o gorfforaethau AB gampysau mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol ac weithiau maent mewn partneriaeth â mwy nag un awdurdod ar amryw brosiectau a mentrau ar unrhyw un adeg.

18. Er hyn, cyrff corfforaethol yw corfforaethau AB, gyda'u cyrff llywodraethu eu hunain ac Offeryn ac Erthyglau Cymdeithasu.

19. Nid oes gan awdurdod lleol awdurdodaeth dros gorfforaethau addysg bellach. O'r herwydd, nid yw awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i sicrhau unrhyw fath o ddarpariaeth gan gorfforaethau AB.

### (b) Swyddogaeth corfforaethau AB o ran darparu cyngor ar reolaeth ariannol

20. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i golegau i ddarparu addysg a hyfforddiant yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau Act 2000. Mae Adrannau 31[2] a 32[3] y Ddeddf honno yn datgan bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, wrth sicrhau

---

[2] *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000* Adran 31
[3] *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000* Adran 32

cyfleusterau addysgol a hyfforddiant, “roi ystyriaeth i gyfleusterau y mae’r [Llywodraeth] yn meddwl yn rhesymol a allai gael eu sicrhau gan bersonau eraill”.

21. Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i golegau AB ddarparu cyngor ar reolaeth ariannol i’w myfyrwyr (nac i’r cyhoedd yn gyffredinol).

22. Mae darparu cyngor ar reolaeth ariannol yn faes arbenigol. Gallai fod swyddogaeth i golegau AB o ran cyfeirio a chynorthwyo mynediad at gyngor ar reolaeth ariannol, a gallant hefyd helpu i ddatblygu gallu ariannol rhai o’u myfyrwyr – lle y bo cyfleoedd, amserlenni a chyllid yn caniatáu (gweler paragraffau 27-28 isod), ond ni ystyriwn mai priodol yw i golegau AB dderbyn swyddogaeth statudol i ddarparu cyngor rheolaeth ariannol yn uniongyrchol.

23. Ystyriwn fod sefydliadau ac asiantaethau eraill mewn gwell sefyllfa i ddarparu cyngor arbenigol o’r fath, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sydd ag amcanion statudol.

## (c) Y corff o fyfyrwyr AB

24. Yn 2012/13,[4] roedd 174,925 o fyfyrwyr unigol yn mynychu coleg AB ac yn ymgymryd â chyfanswm o 656,285 o weithgareddau dysgu. Myfyrwyr o dan 19 oed oedd 29% o’r myfyrwyr mewn colegau AB ledled Cymru. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn y colegau (63%) yn astudio rhan amser, 28% yn astudio amser llawn, ac roedd 9% mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith.

25. Mae corfforaethau AB yn darparu cyrsiau byr (e.e. Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle) a chyrsiau hir (e.e. Safon Uwch). Mae cyrsiau penodol yn ymwneud â gwahanol lefelau, o lefel Mynediad i addysg uwch, ac yn cynnwys cymwysterau sy’n asesu cymhwysedd (NVQs), a chyrsiau proffesiynol (e.e. cyfrifyddiaeth, a chyrsiau TG Microsoft a Cisco). Yn 2012/13, roedd 4,505 o ddysgwyr mewn sefydliadau AB wedi cofrestru ar raglenni lefel AU (L4+) mewn rhaglenni sy’n cwmpasu AB, AU a dysgu seiliedig ar waith. O’r rhai oedd yn astudio cyrsiau lefel AB, roedd 8% ar lefel Mynediad, 24% ar Lefel 1, 40% ar Lefel 2, a 28% ar Lefel 3.[5]

26. Nid yw myfyrwyr 16-19 oed yn talu ffioedd am eu rhaglenni dysgu yn y coleg. Mae rhai myfyrwyr 19+ sy’n derbyn budd-daliadau penodol gan y wladwriaeth hefyd yn cael eu hepgor rhag talu ffioedd neu’n talu ffioedd gostyngedig. Yn achos myfyrwyr sy’n gyflogedig, gallai eu cyflogwyr fod yn talu eu ffioedd dysgu

[4] *Further Education, Work-based Learning and Community Learning in Wales Statistics 2012/13*, Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014).

[5] *Learner Outcome Measures for Further Education, Work-Based Learning and Adult Community Learning 2012/13*. Llywodraeth Cymru (3 Ebrill 2014)

yn llawn neu gyfran ohonynt. Mae gofyn i oedolion eraill sy'n fyfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu yn llawn.

27. Gallai rhai myfyrwyr AB fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol penodol i fyfyrwyr e.e. Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Grant Dysgu'r Cynulliad gynt), Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn.

28. Gyda'i gilydd, felly, mae'r corff o fyfyrwyr yn amrywiol iawn. Gallai fod gan gategorïau penodol o fyfyrwyr anghenion tebyg, ond fel poblogaeth o ryw 175,000 o unigolion, nid oes llawer yn gyffredin rhyngddynt ac eithrio eu hawydd i ennill cymwysterau penodol. Yn wir, y mae'n anodd pennu, yn nhermau deddfwriaethol, pam fyddai ar gorff mor amrywiol o fyfyrwyr angen un math penodol o ymyriad ym maes addysg ariannol.

29. Gallai fod yn fwy buddiol felly ystyried yr angen am ddeddfwriaeth ar gyfer gwahanol gategorïau o fyfyrwyr AB.

**Myfyrwyr AB 16-19 oed**

30. Rhwng 16 ac 19 oed, bydd llawer o bobl ifanc yn dechrau derbyn y cyfrifoldebau a ddaw o fod yn oedolion. Mae hyn yn cynnwys cyllidebu a/neu byw'n annibynnol.

31. Mae colegau AB yn darparu gwasanaethau lles i fyfyrwyr, gan gynnwys cyfeirio at asiantaethau sy'n darparu cyngor ariannol. Mae tiwtoriaid personol hefyd yn darparu cymorth i fyfyrwyr, ac mae'r cwricwlwm ABCh cysylltiedig fel arfer yn cynnwys rhai agweddau ar lythrennedd ariannol.

32. Lle y bo cyfleoedd, amserlenni a chyllid yn caniatáu, gallai corfforaethau AB fynd ymhellach gan fynd ati'n rhagweithiol i gynnwys dysgwyr mewn prosiectau gallu ariannol.

33. Mae enghreifftiau o brosiectau gallu ariannol y mae'r holl gorfforaethau AB yn ymwneud â hwy yn cynnwys dau brosiect llythrennedd ariannol sy'n cael eu hariannu ledled y Deyrnas Unedig: un sy'n cael ei ariannu gan Lloyds Banking Group: Arian am Oes, a'r llall gan Barclays Bank: Wythnosau Sgiliau Arian Barclays – ill dau yn cael eu rheoli yng Nghymru gan GolegauCymru. Mae'r bobl ifanc a'u cynghorwyr yn cael eu cynnwys yn y ddau brosiect hwn. Mae rhaglen Arian am Oes wedi ei dargedu at bobl ifanc 16-24 oed ac yn cynnwys colegau AB ond nid colegau yn unig. Mae undebau credyd, cymdeithasu tai, grwpiau Cymunedau yn Gyntaf, clybiau ieuenctid a charchar, ymysg sefydliadau eraill, yn ymwneud â'r rhaglen.

34. Caiff y prosiectau eu hariannu gan gwmnïau sector preifat, a'r cwmnïau sy'n berchen ar y prosiectau. Mae'r banciau yn darparu adnoddau addysgu a'u personél eu hunain i gefnogi'r prosiectau. Mae'r colegau yn buddsoddi amser staff yn y prosiectau ac er bod pob un o'r corfforaethau AB yn rhan o un o'r

prosiectau neu'r ddau, nid oes gorfodaeth arnynt i wneud hynny. Ceir mwy o wybodaeth am y prosiectau hyn yn y papur briffio atodedig, "Llythrennedd Ariannol ar Gyfer Oedolion Ifanc".

35. O ran y cwricwlwm, caiff corfforaethau AB eu cyllido gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi rhaglenni dysgu i'r garfan hon sydd wedi eu cymeradwyo gan y Llywodraeth[6]. Gallai fod swyddogaeth i'r cwricwlwm o ran helpu pobl ifanc i fagu gwybodaeth a meithrin sgiliau mewn rheolaeth ariannol. Fel a nodir uchod, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**36.** Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod y rhai sy'n dewis parhau mewn addysg amser llawn ôl-16 yn gwneud hynny heb orfodaeth. Mae ganddynt ddewis p'un a ydynt am ddysgu ai peidio a beth i ddysgu.

**Myfyrwyr AB 19+ oed**

37. Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr 19 oed a hŷn mewn colegau AB yn gwneud hynny'n rhan amser. Nid yw dysgu yn orfodol i rai dros 16 oed. Mae'r sail gyfreithiol i ddarparu addysg dan nawdd cyhoeddus yn wahanol i'r garfan hon.[7]

38. Mae Wythnosau Arian Barclays y cyfeirir atynt ym mharagraffau 27-28 uchod yn agored i fyfyrwyr AB o bob oed ond dewis y corfforaethau AB yw p'un a ydynt yn ymwneud â'r rhaglen, a gall y myfyrwyr ddewis p'un a ydynt hwythau am gymryd rhan.

39. Cyfran fach yn unig o boblogaeth oedolion Cymru sy'n fyfyrwyr AB. Bu'r niferoedd (a'r cyllid) yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf.

## Casgliad

40. Efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried adolygu'r cymwysterau fel rhan o'i ystyriaethau, gan gynnwys y cwricwlwm ôl-16 ôl-orfodol.

41. Mae'n statudol ofynnol i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wella gallu ariannol y cyhoedd. Mae corfforaethau AB wedi dangos eu bod yn awyddus i gymryd rhan mewn cyfleoedd yn ymwneud â gallu ariannol lle y bo prosiectau o'r fath yn briodol i'r dysgwyr, lle y bo cyllid ar gael, a lle y gellir dod o hyd i amser priodol yn amserlenni'r dysgwyr.

42. Ni ystyriwn mai priodol yw ei gwneud yn ofynnol i gorfforaethau AB gymryd cyfrifoldeb am ddarparu cyngor rheolaeth ariannol nac i awdurdodau lleol orfod sicrhau bod corfforaethau AB yn darparu cyngor o'r fath nac unrhyw fath o addysg.

[6] Mae'r holl gymwysterau sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cyllido wedi eu rhestru yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru.
[7] *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000* Adran 32

# Llythrennedd Ariannol ar Gyfer Oedolion Ifanc

## Llythrennedd Ariannol: y materion i'w hystyried

Pan fyddant yn 16 oed, bydd llawer o bobl ifanc yn dechrau wynebu cyfrifoldebau bywyd fel oedolyn. Mae llawer i'w ddysgu, gan gynnwys: dehongli cyfraddau llog; gweld y tu hwnt i hysbysebu deniadol; llunio cyllideb, a glynu wrthi; deall ystyr gwerth am arian.

## Creu Cyswllt Effeithiol â Phobl Ifanc

Nid yw darparu gwybodaeth am reoli arian o reidrwydd yn gwneud pobl yn fwy abl neu'n fwy hyderus gydag arian.

Deallwn mai cymheiriaid yw'r gorau i gyfleu negeseuon er mwyn newid ymddygiad ym maes rheoli arian, ac i sicrhau normau a chymhellion newydd.[1]

Gan hynny, mae ColegauCymru yn cynnwys pobl ifanc â'u cynghorwyr mewn prosiectau a gweithgarwch dysgu sy'n cael eu harwain gan gymheiriaid i helpu i wella gallu ariannol yn eu cymunedau lleol.

## Prosiectau Llythrennedd Ariannol

ColegauCymru yw rheolwr Cymru dros ddau brosiect llythrennedd ariannol sy'n cael eu hariannu ledled y Deyrnas Unedig: caiff un ei ariannu gan Lloyds Banking Group: Arian am Oes, a'r llall gan Fanc Barclays: Wythnosau Sgiliau Arian Barclays. Mae'r ddau brosiect hwn yn creu cyswllt â phobl ifanc a'u cynghorwyr.

## Arian am Oes

Arian am Oes yw rhaglen rheoli arian personol Lloyds Banking Group, sydd wedi'i thargedu at bobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau addysg bellach, hyfforddiant a chymunedol ledled y Deyrnas Unedig.

Cyrhaeddodd Arian am Oes restr fer Gwobr Adeiladu Cymunedau Cryfach 2014 gan Busnes yn yGymuned, ac mae wedi derbyn Big Tick am dair blynedd yn olynol o 2012 i 2014. Rhoddwyd hefyd sylw arbennig iddo yng Ngwobrau Rhagoriaeth Cymheiriaid y papur newydd yr Independent.

Mae ColegauCymru yn falch iawn o fod wedi cael ei ddewis i reoli'r rhaglen yng Nghymru ers ei sefydlu yn 2011. Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda cholegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant yn y gweithle, ac ystod o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd angen cymorth, gan gynnwys:

[1] *Transforming Financial Behaviour: Developing interventions that build financial capability* (Consumer Financial Education Body, 2010) https://www.moneyadviceservice.org.uk/files/research_jul10_cr01_summary.pdf

- elusennau sy’n ymdrin ag afiechyd meddwl
- cymdeithasau tai
- undebau credyd
- Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- canolfan i bobl ddigartref
- cymdeithasau ieuenctid
- Carchar Caerdydd
- Cymunedau yn Gyntaf
- DWP

Eleni, rydym yn partneru gyda Youth Cymru i sicrhau cyrhaeddiad ehangach.

Mae gan y Rhaglen Arian am Oes yn ddau linyn allweddol: pecyn cymwysterau ar gyfer ymarferwyr mewn sefydliadau nid- er-elw i baratoi eu dysgwyr a’u cleientiaid sgiliau rheoli arian, ac hefyd cystadleuaeth ar gyfer tîmau o bobl ifanc: yr Her Arian am Oes.

### Pecyn o gymwysterau i fentoriaid pobl ifanc

Mae rhaglen gymwysterau Arian am Oes yn rhoi hyfforddiant achrededig wedi’i ariannu’n llawn i alluogi sefydliadau i ymgorffori sgiliau rheoli arian ar lefel leol. Mae’n cynnwys:

- Teach Me: cyfres o bynciau ar-lein sydd wedi’u llunio i wella gwybodaeth am reoli arian. Mae’r adnoddau ar gael am ddim ac yn agored i bawb, ac maen nhw’n cynnwys y pynciau canlynol: allgáu ariannol, cynllunio a chyllidebu, bancio, dyledion, yswiriant, credyd cynhwysol, cyngor neu arweiniad, a fframwaith gallu ariannol oedolion. Mae cyfle hefyd i ennill cymhwyster Rhwydwaith y Coleg Agored (lefel 3) drwy gwblhau cyfres o aseiniadau yn seiliedig ar nifer o bynciau craidd. Gall rhai sy’n gweithio neu’n gwirfoddoli i sefydliad nid-er-elw neu yn y sector addysg bellach wneud cais am le i astudio tuag at y cymhwyster hwn a hynny wedi’i ariannu’n llawn.

- Teach Others: cwrs deuddydd sy’n galluogi staff nad ydynt yn addysgu mewn sefydliadau addysg bellach, canolfannau allgymorth ac asiantaethau allweddol yn y gymuned i addysgu gallu ariannol i eraill.

- Money Mentors: i rai sy’n gweithio gyda phobl ifanc ar lefel un-i-un. Bydd yr ymgeiswyr yn ennill cymhwyster Sgiliau Mentora Cymheiriaid (Rhwydwaith y Coleg Agored - Lefel 2).

### Her Arian am Oes

Cystadleuaeth genedlaethol yw Her Arian am Oes sy’n rhoi grantiau bach i alluogi timau o bobl 16-24 oed i ddatblygu prosiectau rheoli arian arloesol sy’n cael effaith ar eu cymunedau.

Nod yr her yw dod o hyd i’r prosiectau mwyaf llwyddiannus ac arloesol y gall dysgwyr ifanc ddefnyddio i wella eu sgiliau rheoli arian eu hunain a sgiliau eu ffrindiau, eu teuluoedd a’u cymunedau.

Mae’r Her bellach yn ei bedwaredd flwyddyn ac wedi tyfu bob blwyddyn. Mae Cymru wir wedi mynd i'r afael â'r Her[2], ac wedi llwyddo i ddenu cyfran uwch o grantiau na gwledydd eraill y DU. O 40 o grantiau cychwynnol a oedd ar gael yn 2011 yng Nghymru, mae’r Her yn dyblu eleni, gyda 80 o grantiau i'w hennill.

Bydd gan y timau hyn y dasg o ddatblygu eu syniadau ynglŷn â rheoli arian i lefel cystadleuaeth erbyn diwedd mis Chwefror 2015. Caiff y prosiectau gorau eu gwahodd i Rownd Derfynol Cymru ar 28 Ebrill 2015, a chaiff enillydd Cymru wedyn ei wahodd i Rownd Derfynol y Deyrnas Unedig ar 28 Mai 2015.

[2] Tîm “*Don’t Buy Posh Save your Dosh*” o ACT Pen-y-bont ar Ogwr oedd enillwyr Cymru, cyn mynd ymlaen i ennill Rownd Derfynol y Deyrnas Unedig yn 2012.

**Etifeddiaeth**

Mae'r Her Arian am Oes yn cael effaith fawr ar bobl ifanc a'u cymunedau, gyda grantiau etifeddiaeth ar gael i'r goreuon ar draws y DU i ddatblygu ymhellach eu prosiectau er mwyn sicrhau effaith barhaol.

## Sgiliau Arian Barclays

Nod Sgiliau Arian Barclays yw datblygu sgiliau ariannol, gwybodaeth a hyder pobl ifanc a grwpiau eraill agored i niwed yn y Deyrnas Unedig i'w helpu i reoli eu harian yn fwy effeithiol.

Caiff y rhaglen ei chyflenwi mewn colegau addysg bellach gan diwtoriaid colegau a gwirfoddolwyr Barclays yn ystod ymgyrch wythnos gyfan o diwtorialau a gweithgareddau rhyngweithiol, gan fynd i'r afael â phynciau fel cyllidebu, cynilo a gwario, yn ogystal a chynnig arweiniad ymarferol ynglŷn â ble i ddod o hyd i gymorth a chyngor.

Caiff Sgiliau Arian Barclays ei ariannu gan Barclays a'i reoli yng Nghymru gan ColegauCymru. Caiff yr holl ddeunyddiau a'r adnoddau eu darparu gan Barclays ac maen nhw'n gymysgedd o diwtorialau a gweithgareddau i'w cynnal ledled y coleg.

Cynhaliwyd Wythnos Sgiliau Arian Barclays gyntaf ym mis Mawrth 2011. Erbyn 2012, roedd 117 o golegau addysg bellach ledled y Deyrnas Unedig yn cynnal Wythnosau Sgiliau Arian Barclays, gyda 11 coleg addysg bellach yng Nghymru yn cymryd rhan yn 2014.

## Effaith ehangach o waith ColegauCymru ar Allu Ariannol

Mae ColegauCymru yn rhannu ein harbenigedd gyda nifer o asiantaethau a phwyllgorau perthnasol ar allu ariannol. Er enghraifft:

- Uned Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru
- Datblygu ymhellach y pecynnau o adnoddau cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y rhaglenni Lloyds Banking Group a Banc Barclays
- Fforwm Gallu Ariannol y Canolbarth, De a Gorllewin Cymru
- Fforwm Gwasanaeth Cynghori Ariannol Cymru
- Gweithgor Plant a Phobl Ifanc y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (DU).

## Gwybodaeth Bellach

Rachel Dodge
Rheolwr Prosiectau Gallu Ariannol
E: rachel.dodge@colegaucymru.ac.uk
www.twitter.com/CollegesWales_R

Sylvia Davies
Pennaeth Materion Cyhoeddus
E: Sylvia.davies@colegaucymru.ac.uk
www.twitter.com/ColegauCymru